y Goleuad

EGLWYS BRESBYTERAIDD CYMRU · GOLEUNI Y BYWYD

CYFROL CXXXVIII RHIF 5 DYDD GWENER, IONAWR 29, 2010 Pris 40c

YMADAWIAD Y PARCHEDIG EIFION ROBERTS

Llanelli a'r Cylch

Ar 31ain o Rhagfyr 2009, fe ddaeth gweinidogaeth y Parch. Eifion A. Roberts i ben yng Ngofalaeth Llanelli a'r cylch ar ôl 13 mlynedd o wasanaeth ymroddgar a chydwybodol. Yn ystod ei fis olaf, trefnwyd nifer o ddigwyddiadau a gwasanaethau i gydnabod yr achlysur ymysg y 6 eglwys a oedd yn ffurfio'r ofalaeth, sef Bryn Seion Llangennech, Capel Newydd Llanelli, Horeb Mynydd-y-Garreg, Morfa Cydweli, Nasareth Llwynhendy a Trinity Llanelli.

Y ddau brif ddigwyddiad oedd y Gwasanaeth Gollwng a gymerodd le yng Nghapel Newydd, Llanelli ar Nos Wener, 11eg o Rhagfyr a chinio arbennig yng Ngwesty Parc y Strade ar Nos Lun, 21ain o Rhagfyr, pan ddaeth nifer teilwng o aelodau'r ofalaeth at eu gilydd ar noson aeafol iawn i ffarwelio â'r Bugail a'i deulu.

Yn y Gwasanaeth Gollwng, daeth aelodau o holl eglwysi'r ofalaeth ynghyd, gyda chynrychiolwyr o eglwysi'r dre, Dosbarth yr Arfordir, Henaduriaeth Myrddin a ffrindiau'r teulu ac fe gafwyd gwasanaeth cofiadwy a bendithiol.

Llywyddwyd y gwasanaeth gan Mr. Hywel Hughes, Llandeilo, Llywydd Henaduriaeth Myrddin ac fe estynnodd groeso twymgalon i bawb cyn cyhoeddi'r emyn cyntaf. Darllenwyd o'r ysgrythur gan ddau o gyd-weinidogion yr ardal, y Parch. Michael Davies, Ficer Dafen a'r Parch. Carys Awen Jones, gweinidog y Bedyddwyr ym mhentref Pwll. Offrymwyd gweddi bwrpasol a dwys gan y Parch. D. J. Jones, cyn-weinidog Capel Newydd a Saron, Ffwrnes.

Y Parchg. D. J. Jones, cyn weinidog Capel Newydd yn dymuno'n dda i'r Parchg. Eifion Roberts

Datganodd y Llywydd fod symudiad y gweinidog o fewn trefn Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac wedi ei gadarnhau, ac wedyn cyflwynodd Mr W. J. Thomas, blaenor hynaf yr Ofalaeth air byr o werthfawrogiad o wasanaeth y bugail a dymuniadau gorau'r ofalaeth iddo ef a'i deulu, wrth ymuno â gofalaeth newydd yn y Morfa, Aberystwyth ddechrau'r Flwyddyn Newydd.

Mrs Elizabeth Griffiths yn cyflwyno tusw o flodau i Mrs Alwen Roberts, gyda'r Parchg. Eifion Roberts hefyd yn y llun.

Cyflwynwyd y weithred o ollwng gan y Llywydd ac offrymodd y Parch. Trefor Lewis, Llanddarog air o weddi dros y gweinidog, gan ddiolch am bob gwasanaeth a gweithred yn y gorffennol.

Ymatebodd y Parch. Eifion Roberts yn fyr i hyn oll, gan ddiolch am bob cefnogaeth a chymorth, a datganodd ei fod ef a'i deulu wedi mwynhau cwmni pobol Llanelli a'r cylch a byddai atgofion melys ganddynt am y cyfnod hwn yn eu bywydau. Roedd tristwch wrth adael yn naturiol ond hefyd edrychent ymlaen nawr at brofiadau newydd yn Aberystwyth o dan arweiniad Duw.

Diolchodd Mr. Mel Morgans, Ysgrifennydd yr Henaduriaeth i'r Parch. Eifion Roberts am ei gyfraniad i'r gwahanol henaduriaethau dros y cyfnod, yn cynnwys bod yn ysgrifennydd ac yn weithgar iawn ym mhwyllgorau a llysoedd yr Eglwys. Byddai bwlch mawr ar ei ôl ond mi fyddai'r cysylltiadau yn parhau trwy ei rôl fel Ysgrifennydd Cymdeithasfa'r De o 2010 ymlaen.

Canwyd emyn 243 i orffen a chyhoeddwyd y Fendith gan y Llywydd, cyn i'r gynulleidfa ymuno mewn te blasus a baratowyd gan chwiorydd Capel Newydd a chafwyd cyfle i gymdeithasu gyda'i gilydd a gyda'r Parch. Eifion Roberts a'i deulu.

Roedd y cinio ar Nos Lun, Rhagfyr 21ain yn gyfle arall i aelodau o Eglwysi'r ofalaeth i ddod ynghyd i ddangos eu teyrngarwch a gwerthfawrogiad o weinidogaeth y Parch. Eifion Roberts dros y 13mlynedd diwethaf.

Roedd hwn yn achlysur mwy anffurfiol, gydag aelodau o bob eglwys yn bresennol ac fe gafwyd cinio Nadoligaidd a blasus iawn mewn cwmni difyr a hapus.

Cyflwynodd Llywydd y Noson, Mr Bill Griffiths, Bryn Seion siec i'r gweinidog gan aelodau'r ofalaeth, mewn gwerthfawrogiad o wasanaeth y Parch. Eifion Roberts dros y cyfnod. Cyfeiriodd at ei barodrwydd i ymateb i bob galwad ac i wasanaethu 6 eglwys dros ardal eang yn gydwybodol a gyda ymroddiad ac arddeliad. Er fod y sefyllfa yn un drist i'r ofalaeth, roedd am gyflwyno dymuniadau gorau iddo fe a Mrs. Alwen Roberts, Dafydd ac Anna yn eu cynefin newydd.

Diolchodd y Parch. Eifion Roberts unwaith eto am bob dymuniad da ac am y croeso twymgalon roedd ef a'i deulu wedi ei deimlo yn yr ardal ac ym mhob eglwys yn ystod cyfnod ei weinidogaeth. Roeddynt yn gadael Llanelli gyda atgofion melys a ffrindiau da.

Cyflwynodd Mrs. Elizabeth Griffiths, Bryn Seion, dusw o flodau i Mrs. Alwen Roberts ac anrhegion i Dafydd ac Anna. Gorffennwyd y noson yn hwylus gyda phawb yn cymdeithasu gyda'i gilydd ac yn cyflwyno eu dymuniadau gorau i'r teulu i'r dyfodol.

WDG.

Mr Bill Griffiths yn cyflwyno siec i'r Parchg. Eifion Roberts.